Rhif: WG29958

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

Crynodeb o’r ymatebion i’r Ymgynghoriad ar Welliannau Technegol i Ddeddfwriaeth y Dreth Gyngor i Adlewyrchu Cyflwyniad Premiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi

Ionawr 2017

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-8500-6

**What to do next –**

**DO NOT INCLUDE THIS IN YOUR DOCUMENT**

1. **Check through your document for spelling errors and layout. Check your font sizes - the minimum font size is 12pt, for accessibility the font should not be smaller than this.**

   Check that you have included your issue date on the front cover AND you have the WG number (WG numbers obtained through the WG approval system – see http://cmaprint/cmaprintunit/index.asp and ISBN in place – the ISBN goes at the bottome (see grey text). Go to intranet – A-z – I, for guidance. Check you have your titles in correctly and if you don't have a subtitle please delete the 'sample' text in the boxes.
2. **Make sure you have a contents page if needed.**
3. **Create a pdf of your document after checking it for minimum font sizes and layout.** To create a pdf of your word document, go to File, Save as, and on the bottom drop down bar labelled: 'Save as type': choose PDF
4. Once completed, and when supporting documents are prepared, **consider whether Welsh Language translation** of the summary of responses and supporting docs are required:

   http://assembly/welshlanguage/translat.htm

   IF you need a Welsh version – there is a Welsh version of the consultation document style to use.
5. Arrange for your summary of responses to be put on line

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 2 | Ymatebion i'r Ymgynghoriad | 2 |
| 3 | Crynodeb o Ymatebion | 3 |
| 4 | Rhestr o Ymatebwyr | 5 |
| 5 | Y Camau Nesaf | 5 |

# 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol godi premiwm y dreth gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardaloedd o 1 Ebrill 2017.

I baratoi am hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad i ystyried gwelliannau i ddeddfwriaeth bresennol y dreth gyngor er mwyn i'r awdurdodau lleol allu gweinyddu premiymau'r dreth gyngor yn effeithiol. Diben yr ymgynghoriad yw cael eich barn ar y gwelliannau sy'n cael eu cynnig i'r canlynol:

- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 ("Rheoliadau 1992").
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 ("Rheoliadau 1993").
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 ("Rheoliadau 1998").

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o wyth wythnos rhwng 6 Hydref 2016 ac 1 Rhagfyr 2016. Roedd ar gael ar Borth Ymgynghori Llywodraeth Cymru ac fe roddwyd cyhoeddusrwydd iddo ar e-bost.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

# 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Derbyniwyd 19 ymateb i gyd. Derbyniwyd ymatebion gan y categorïau canlynol o sefydliadau ac unigolion:

- Awdurdodau Lleol – 4
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu – 1
- Landlordiaid Preifat – 2
- Unigolion – 12

Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Adran 4.

Roedd fformat, lefel manylion a phwnc yr ymatebion yn amrywio ac mae crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd wedi'i gynnwys isod.

# 3. Crynodeb o ymatebion

**1. Ydych chi'n cytuno y bydd y gwelliannau arfaethedig i Reoliadau 1992 yn galluogi premiymau'r dreth gyngor i gael eu gweinyddu'n effeithiol?**

Roedd naw ymatebydd yn cytuno â'r gwelliannau arfaethedig. Dywedodd un fod caniatáu'r gwelliant i sicrhau bod y rhandaliadau'n adlewyrchu'r premiwm a godir yn ddefnyddiol. Holodd un arall beth fyddai'n digwydd pe na bai trethdalwr yn rhoi gwybod i'r awdurdod bilio o fewn 21 diwrnod eu bod yn credu na ddylai eu heiddo fod yn destun premiwm.

Dywedodd wyth ymatebydd nad oeddynt yn cytuno â'r gwelliannau arfaethedig i Reoliadau 1992. Ni ddarparodd yr un ohonynt sylwadau i gyfiawnhau eu hymateb, er bod un yn dweud nad oedd yn deall y cwestiwn gan ei fod yn dechnegol.

Ni ddywedodd dau ymatebydd a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r gwelliannau arfaethedig.

**2. Ydych chi'n cytuno y bydd y gwelliannau arfaethedig i reoliadau 1993 yn galluogi premiymau'r dreth gyngor i gael eu gweinyddu'n effeithiol?**

Dywedodd deg ymatebydd nad oeddynt yn cytuno â'r gwelliannau arfaethedig i Reoliadau 1993, tra bo naw ymatebydd yn cytuno â nhw.

Dim ond tri ymatebydd roddodd sylwadau pellach ar a oedd y gwelliannau yn galluogi premiymau'r dreth gyngor i gael eu gweinyddu'n effeithiol. Nododd dau ymatebydd nad oedd y ddeddfwriaeth newydd yn nodi pa braeseptau (sy'n cynnwys praesept awdurdod lleol, praesept yr heddlu a phraesept y cyngor cymuned) y dylai'r premiwm fod yn gysylltiedig â nhw ac y dylid egluro hyn. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 2016 a chafodd ei egluro yn yr ymgynghoriad oedd yn cyd-fynd â'r rheoliadau. Gwnaeth ymatebydd arall sylw technegol am newid y ddeddfwriaeth i adlewyrchu'r

defnydd o feddalwedd bilio. Ni theimlwyd bod angen hyn a gallai gael goblygiadau i’r feddalwedd a ddefnyddir gan awdurdodau eraill.

**3. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y gwelliannau a wnaed i Reoliadau 1998?**

Dim ond un ymatebydd roddodd farn ar y gwelliannau i Reoliadau 1998 gan gadarnhau y byddai’r gwelliannau’n sicrhau cysondeb o ran y diffiniadau o ddosbarthau rhagnodedig anheddau.

Cynigiodd nifer o ymatebwyr sylwadau mwy cyffredinol ar gyflwyno premiymau'r dreth gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi.

Roedd pedwar ymatebydd yn anghytuno â’r premiymau ar gartrefi gwag hirdymor, gan ddweud y byddai’n niweidiol i’r economi leol ac yn rhoi baich ariannol ar landlordiaid ac yn atal pobl rhag buddsoddi mewn eiddo yng Nghymru.

Roedd pedwar ymatebydd yn anghytuno â’r premiymau ar ail gartrefi. Dywedodd rhai o’r ymatebwyr hyn na ddylai’r cyngor godi tâl am wasanaethau os nad oes neb yn aros mewn eiddo. Dywedodd un ymatebydd nad oedd pob ail gartref yn gartref gwyliau a’u bod yn cael eu defnyddio gan bobl sy’n gweithio yn yr ardal ond bod eu prif gartref yn rhywle arall am resymau teuluol. Nid oedd ymatebydd arall yn credu bod prinder tai fforddiadwy yn yr ardal lle roedd ganddynt ail gartref.

Roedd dau ymatebydd yn cytuno â’r premiymau ar ail gartrefi gan ddweud bod ail gartrefi’n gorfodi pobl leol o’u pentref ac yn cael effaith uniongyrchol ar y gymuned a’r Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori eisoes ar gyflwyno pwerau disgresiwn i awdurdodau lleol godi premiymau'r dreth gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardal, yn ogystal â’r esemptiadau i’r premiymau. Mae gofyn i awdurdodau lleol sy’n dymuno codi premiwm ymgynghori â threthdalwyr lleol cyn penderfynu codi premiwm ac i benderfynu ar lefel y premiwm.

## 4. Rhestr Ymatebwyr

Derbyniwyd ymatebion gan y sefydliadau canlynol:

**Awdurdodau Lleol**
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Ynys Môn
Dau ddienw

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

**Landlordiaid Preifat**
AA Properties Wales
Un dienw

**Trethdalwyr**
Derbyniwyd 12 ymateb gan unigolion preifat.

## 5. Y Camau Nesaf

Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad bydd y rheoliadau perthnasol yn cael eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn 1 Ebrill 2017.